**Cyngor Sir Penfro**
**Pembrokeshire County Council**

# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

---

## Cynnig ar gyfer cau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Maenorbŷr

# ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

**Mehefin 2026**

**Cyhoeddwyd gan:**

**Cyngor Sir Penfro**
**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**SA61 1TP**

**Mehefin 2026**

I gael copi o’r cyhoeddiad hwn ar ffurf Braille, mewn print bras neu ar ffurf tâp sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar 01437 776613

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel, ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Ystyrir bod cael yr ysgolion cywir yn y mannau cywir, a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer dysgwr yr unfed ganrif ar hugain yn ganolog i hyn, ac yn her sy’n wynebu cynghorau ledled Cymru.

Mae mynd i’r afael â’r her hon yn cynnwys adolygu nifer a mathau’r ysgolion sydd gan y cyngor yn ei ardal, ac asesu a ydyw’r defnydd gorau yn cael ei wneud o’r ysgolion hyn er mwyn darparu addysg effeithiol i ddiwallu anghenion a dyheadau dysgwyr yn Sir Benfro.

Mae’r cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail y canlynol:

- Ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol yn y dyfodol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd ysgolion
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgolion
- Gwerth am arian.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Maenorbŷr ar 14 Ebrill 2026, a arweiniodd at 62 o wrthwynebiadau.

Cyhoeddir yr Adroddiad Gwrthwynebiadau hwn o dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy’n nodi bod yn rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o’r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigwyr i’r gwrthwynebiadau hynny.

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Cyngor Sir Penfro ymgynghoriad statudol rhwng 5 Tachwedd 2025 a 19 Rhagfyr 2025, gyda chynnig i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Maenorbŷr.

Wedi hynny, cafodd yr adroddiad ymgynghori ei ystyried gan y cyngor sir yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026. Roedd penderfyniad y cyngor fel a ganlyn;

**Bod y Cyfarwyddwr Addysg yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Maenorbŷr.**

Cyhoeddwyd hysbysiad statudol wedi hynny ar 14 Ebrill 2026 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Daeth y cyfnod gwrthwynebu statudol ar gyfer yr hysbysiad i ben ar 11 Mai 2026. Daeth 62 o wrthwynebiadau i law.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y cyngor sir fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau, ac mae'n darparu'r canlynol:

- crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a ddaeth i law, ac
- ymateb y cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny

# 2. Dosbarthu'r adroddiad gwrthwynebiadau

| | |
|---|---|
| **Cyrff llywodraethu, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid a staff:** | |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr | |
| **Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried ei bod yn debygol y bydd y cynigion yn effeithio arnynt** | |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod<br>Ysgol Wirfoddol a Reolir Sain Fflwrens<br>Ysgol Wirfoddol a Reolir Llandyfái<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Sageston<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Stepaside | Ysgol Hafan y Môr<br>Ysgol Gynradd Gatholig Teilo Sant<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Saundersfoot<br>Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Oswallt<br>Ysgol Greenhill<br>Ysgol Bro Preseli |
| **Aelodau etholedig:** | |
| • Paul Davies – AS Ceredigion Penfro<br>• Claire Archibald – AS Ceredigion Penfro<br>• Kerry Ferguson – AS Ceredigion Penfro<br>• Gwir Anrh. Elin Jones – AS Ceredigion Penfro<br>• Paul Marr – AS Ceredigion Penfro<br>• Anna Nicholl – AS Ceredigion Penfro<br>• Henry Tufnell AS (Canol a De Sir Benfro) | • Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall<br>• Y Cynghorydd M Williams<br>• Y Cynghorydd P Kidney<br>• Y Cynghorydd V Thomas<br>• Y Cynghorydd Rh Jordan<br>• Y Cynghorydd T Hodgson |
| **Cynghorau tref a chymuned perthnasol:** | |
| Cyngor Cymuned Maenorbŷr, Cyngor Cymuned Sain Fflwrens, Cyngor Cymuned Penalun, Cyngor Cymuned Dinbych-y-pysgod, Cyngor Cymuned Llandyfái, Cyngor Cymuned Caeriw | |
| **Undebau llafur:** | |
| Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU), Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT), Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC), Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT), Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), UNSAIN, UNITE, GMB | |
| **Awdurdod esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig.** | |
| Tyddewi | Archesgobaeth Unedig Caerdydd-Mynyw |
| **Eraill** | |
| Gweinidogion Cymru,<br>Estyn<br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys | Comisiynydd y Gymraeg<br>Partneriaeth – Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Darparwyr blynyddoedd cynnar / gofal plant annibynnol / gwirfoddol** | |
| **Lleoliadau cylch chwarae**<br>• Cylch Chwarae Sageston<br>• Teilo Tots<br>• Cylch Meithrin Tonnau Bach<br>• Tiny Treasures | Gwarchodwyr plant<br>• JS – Sageston<br>• AD – Sain Fflwrens<br>• CH – Dinbych-y-pysgod<br>• AMR – Dinbych-y-pysgod<br>• SM – Dinbych-y-pysgod |

# 3. Gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymateb y cyngor

Daeth 62 o wrthwynebiadau i'r cynnig i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn llawn yn **ATODLEN 1.**

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ac yn darparu ymateb y cyngor iddynt.

Mae'r sylwadau wedi'u categoreiddio yn ôl thema, a nodir nifer yr ymatebwyr a wrthwynebodd y cynnig ar y seiliau hynny:

| Rhif | Thema | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|
| 1 | Effaith ar y gymuned (hunaniaeth, llesiant, effaith economaidd) | 36 (58%) |
| 2 | Cynaliadwyedd gwledig | 32 (51%) |
| 3 | Gwrthwynebiad cyffredinol i gau'r ysgol | 24 (39%) |
| 4 | Ailadeiladu / ailddatgan a galw yn y dyfodol | 24 (39%) |
| 5 | Effaith ar anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr agored i niwed, llesiant a thrawma | 22 (35%) |
| 6 | Tân, yswiriant ac atebolrwydd | 18 (29%) |
| 7 | Pryderon yn ymwneud â'r broses ymgynghori | 17 (27%) |
| 8 | Ystyriaethau ariannol | 16 (26%) |
| 9 | Pryderon yn ymwneud â thrafnidiaeth / teithio | 16 (26%) |
| 10 | Torri addewidion a cholli ymddiriedaeth | 15 (24%) |
| 11 | Effaith ar staff a chyflogaeth | 12 (19%) |
| 12 | Darpariaeth ffydd a buddiannau'r esgobaeth | 10 (16%) |

Noder: Codwyd mwy nag un thema ym mhob gwrthwynebiad, sy'n golygu bod cyfanswm yr ymatebion yn uwch na nifer y gwrthwynebiadau a ddaeth i law.

Mae'r pryderon a godwyd wedi'u hamlinellu'n fanylach yn y tabl isod, ynghyd ag ymatebion y cyngor.

| Sylwadau ar y gwrthwynebiad | Ymateb |
|---|---|
| **Effaith ar y gymuned (hunaniaeth, llesiant, effaith economaidd)** | |
| Dyma’r pryder a godwyd amlaf. Mae ymatebwyr yn disgrifio’r ysgol yn gyson fel rhan ganolog o fywyd cymunedol, a chyfeirir ati’n aml fel “calon” neu “ganolbwynt” y pentref.<br><br>Ceir barn gref a gyffredin y byddai cau yn:<br><br>• tanseilio cydlyniant cymunedol<br>• lleihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a gwirfoddoli<br>• annog teuluoedd i beidio ag aros yn yr ardal neu symud iddi<br>• cyfrannu at ddirywiad ym mywiogrwydd y pentref yn y tymor hwy<br><br>Mae’r ymatebwyr hefyd yn cysylltu hyn ag effeithiau ehangach, gan gynnwys:<br><br>• gwneud yr ardal yn llai atyniadol i deuluoedd ifanc<br>• newidiadau posibl mewn tueddiadau tai<br>• colli cysylltiadau rhwng y cenedlaethau sy’n gysylltiedig â’r ysgol<br><br>Mynegir y safbwyntiau hyn yn emosiynol ac ymarferol, gan adlewyrchu rôl yr ysgol y tu hwnt i addysg. | Mae’r cyngor yn cydnabod cryfder a chysondeb y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch rôl yr ysgol fel ased cymunedol gwerthfawr. Yn yr un modd, roedd adborth, a gasglwyd fel rhan o’r adroddiad ymgynghori, yn nodi cyfraniad yr ysgol at gydlyniant cymunedol a hunaniaeth leol.<br><br>Mae’r cyngor yn cydnabod y gall colli ysgol leol gael goblygiadau cymdeithasol ehangach. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, rhaid i’r cyngor ystyried cynaliadwyedd ac ansawdd y ddarpariaeth addysg ar draws yr ardal ehangach. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio’n effeithiol a bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â’r galw cyfredol a’r galw a ragwelir.<br><br>Er bod rôl gymunedol yr ysgol yn ystyriaeth bwysig, rhaid ei chydbwyso â safonau addysgol, hyfywedd yn yr hirdymor, a dosbarthu adnoddau’n deg.<br><br>Mae tystiolaeth a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion amgen, ac mai ond 20.9% sy’n mynychu Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr.<br><br>Ar ben hynny, cyn y tân ym mis Hydref 2022, roedd gan Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr nifer sylweddol o leoedd gwag, a gwelwyd dirywiad o 30.7% rhwng 2015 a 2022. Roedd 50% o leoedd gwag cyn y tân yn 2021 a 54.7% yn 2022. |

| Sylwadau ar y gwrthwynebiad | Ymateb |
|---|---|
| **Cynaliadwyedd gwledig** | |
| Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal mynediad lleol at addysg, yn enwedig mewn cyd-destun gwledig.<br><br>Mae'r pryderon allweddol yn cynnwys:<br><br>• pellteroedd teithio cynyddol i blant ifanc<br>• colli darpariaeth y gellir cael mynediad iddi yn lleol<br>• llai o gydraddoldeb o ran mynediad o'i gymharu ag ardaloedd trefol<br>• goblygiadau ehangach ar gyfer cynaliadwyedd cymunedau gwledig<br><br>Mae ymatebwyr yn aml yn cysylltu'r thema hon ag effaith gymunedol a newid demograffig yn yr hirdymor. | Mae'r cyngor yn cydnabod y pwysigrwydd a roddir ar fynediad lleol at addysg. Ystyriwyd y materion hyn yn fanwl fel rhan o'r broses ymgynghori, gan gynnwys hygyrchedd ac argaeledd darpariaeth amgen.<br><br>Er y caiff yr ysgol ei gwerthfawrogi'n lleol, nid yw wedi'i dynodi'n ysgol wledig o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac roedd lefel y lleoedd gwag (hyd yn oed cyn y tân) yn sylweddol. Felly, rhaid i'r cyngor ystyried dosbarthiad a chynaliadwyedd y ddarpariaeth ar draws yr ardal ehangach er mwyn sicrhau mynediad teg at addysg o ansawdd uchel. |
| **Gwrthwynebiad cyffredinol i gau'r ysgol** | |
| Mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr wrthwynebiad cyffredinol i gau'r ysgol mewn egwyddor. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r ysgol barhau ar agor ac nad ydynt yn cefnogi ei chau o dan unrhyw amgylchiadau.<br><br>Mynegodd yr ymatebwyr eu gwrthwynebiadau o ran y gwrthwynebiad lleol cryf, ymlyniad emosiynol i'r ysgol a'r gred y byddai cau yn golled i'r gymuned a hunaniaeth leol. Teimlai llawer y dylai cryfder y gwrthwynebiad yn erbyn cau fod yn benderfynydd yn y broses o wneud penderfyniad. | Mae'r cyngor yn cydnabod cryfder y teimladau a fynegwyd gan ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r cynnig. Fel rhan o'r broses statudol, mae'n ofynnol i'r cyngor ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys safonau addysgol, cynaliadwyedd y ddarpariaeth, ystyriaethau ariannol a defnydd effeithlon o adnoddau, yn ogystal â barn a gwrthwynebiadau ymgyngoreion.<br><br>Er bod y safbwyntiau a fynegir yn gwneud cyfraniad pwysig at y broses o wneud penderfyniadau, ni chaiff penderfyniadau eu gwneud ar sail nifer yr ymatebwyr nad ydynt yn cefnogi'r cynnig yn unig, na nifer y gwrthwynebiadau a ddaw i law. |

| Sylwadau ar y gwrthwynebiad | Ymateb |
| --- | --- |
| **Ailadeiladu / adfer a galw yn y dyfodol** | |
| Mae nifer sylweddol o ymatebwyr yn dadlau y dylid ailadeiladu'r ysgol yn hytrach na'i chau, gan nodi'r canlynol:<br><br>• collwyd yr adeilad o ganlyniad i ddigwyddiad eithriadol<br>• mae cymuned yr ysgol wedi parhau i fod yn hyfyw mewn lleoliad dros dro<br>• mae'n debygol y bydd y galw yn cynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i ddatblygiadau tai<br><br>Mae canfyddiad cryf y byddai cau yn gyfle wedi'i golli i ail-fuddsoddi mewn darpariaeth leol. | Mae'r cyngor yn cydnabod mai adfer oedd y dewis arall a gynigiwyd amlaf yn ystod y cyfnod ymgynghori, a'i fod yn un o'r opsiynau a ystyriwyd yn ystod y broses adolygu. Fodd bynnag, roedd costau, cyflwr y safle a chynaliadwyedd yn yr hirdymor, yn enwedig yng nghyd-destun y lefelau sylweddol o leoedd gwag (hyd yn oed cyn y tân), yn golygu nad dyma oedd yn cael ei ystyried fel yr opsiwn mwyaf hyfyw o'i gymharu ag opsiynau eraill ac argaeledd darpariaeth amgen addas gerllaw.<br><br>Er y cafodd yr opsiwn i ailadeiladu ei ystyried, fel y nodwyd yn yr adroddiad ymgynghori, mae'r setliad yswiriant a gynigir yn sylweddol is na'r gost amcangyfrifedig i'w hadfer. Mae'r casgliad yn parhau i fod yn ddigyfnewid, sef nad yw adfer yn ddatrysiad cynaliadwy nac yn cynnig y gwerth gorau.<br><br>Yn ogystal ag adfer, ystyriwyd opsiynau amgen gan gynnwys modelau ffedereiddio a chydweithio fel rhan o'r broses arfarnu opsiynau.<br><br>Er y gallai opsiynau o'r fath gynnig rhai manteision, ni ystyriwyd eu bod yn darparu ateb cynaliadwy yn yr hirdymor wrth eu hasesu yn erbyn hyfywedd ariannol, lleoedd dros ben ar draws yr ardal ehangach, ac argaeledd darpariaeth amgen addas.<br><br>Mae'r cyngor yn fodlon bod pob dewis arall rhesymol wedi'i archwilio yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| **Effaith ar anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr agored i niwed, llesiant a thrawma** | |
| Mae nifer sylweddol o ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch yr effaith ar ddisgyblion, yn enwedig y rhai ag | Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd amgylchedd bach a meithringar yr ysgol, yn enwedig i ddysgwyr agored i niwed. Mae |

| Sylwadau ar y gwrthwynebiad | Ymateb |
| --- | --- |
| anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu'r rhai sy'n agored i niwed.<br><br>Mae'r materion allweddol yn cynnwys:<br><br>• colli amgylchedd bach, meithringar<br>• anawsterau posibl mewn lleoliadau ysgol mwy<br>• effaith ar lesiant emosiynol<br>• amhariad o ganlyniad i bontio<br><br>Caiff hyn ei gysylltu'n aml â'r trawma sy'n gysylltiedig â'r tân a'r cyfnod hir o ansicrwydd a brofwyd gan ddisgyblion a theuluoedd. | hefyd yn cydnabod yr amhariad a'r ansicrwydd a brofwyd gan ddisgyblion yn dilyn y tân.<br><br>Mae'r cyngor wedi ystyried y ffactorau hyn. Mae'n ofynnol i ysgolion sy'n derbyn disgyblion ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol, a bod ganddynt systemau sefydledig ar waith i ddarparu cefnogaeth briodol.<br><br>Bydd trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu gweithredu, gan gynnwys cefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer disgyblion unigol, er mwyn sicrhau dilyniant gofal ac i leihau'r amhariad ar lesiant a dysgu. |
| **Tân, yswiriant ac atebolrwydd** | |
| Cododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch y canlynol:<br><br>• achos y tân<br>• yswiriant<br>• atebolrwydd a chyfrifoldeb<br>• cyflwr presennol a dirywiad y safle<br><br>Mae'r pryderon hyn yn aml yn gysylltiedig â chanfyddiadau o degwch a chyfrifoldeb mewn perthynas â'r cynnig. | Mae'r cyngor yn cydnabod bod nifer o ymatebwyr, gan gynnwys undebau llafur, wedi mynegi pryderon ynghylch achos y tân, yswiriant, atebolrwydd, a'r ffordd yr ymdriniwyd â'r safle.<br><br>Rheolir materion sy'n ymwneud ag yswiriant, atebolrwydd, ac unrhyw hawliadau posibl yn unol â phrosesau cyfreithiol ac yswiriant sefydledig. Oherwydd sensitifrwydd cyfreithiol a masnachol, nid yw'n briodol darparu sylwadau manwl yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae lefel y setliad yswiriant a gynigir ymhell islaw y gost amcangyfrifedig i adfer yr ysgol i safon weithredol addas.<br><br>Cydnabyddir y pryderon ynghylch cyflwr a dirywiad y safle. Er bod camau priodol wedi'u cymryd i gynnal y safle, cydnabyddir bod adeiladau gwag yn dueddol o ddirywio dros amser. |

<table>
<tr><th>Sylwadau ar y gwrthwynebiad</th><th>Ymateb</th></tr>
<tr><td></td><td>Er bod y materion hyn yn bwysig, nid ydynt yn newid cyfrifoldeb y cyngor i ystyried cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysg yn seiliedig ar yr angen presennol a’r angen a ragwelir.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pryderon ynghylch y broses ymgynghori</td></tr>
<tr><td>Mae’r ymatebwyr yn codi pryderon sylweddol am y broses a ddilynwyd, gan gynnwys:<ul><li>canfyddiad o ddiffyg tryloywder</li><li>y gred bod y canlyniad wedi’i bennu ymlaen llaw</li><li>cwestiynu sut y cafodd yr ymatebion i’r ymgynghoriad eu hystyried</li><li>bod y cyfiawnhad dros gau yn seiliedig ar wybodaeth anghywir</li><li>cyfeiriadau at y lefel uchel o wrthwynebiad a fynegwyd</li><li>cwestiynu a gafodd y cynghorwyr eu hannog i beidio ag ymweld â’r ysgol yn uniongyrchol</li></ul>Mae’r pryderon hyn yn adlewyrchu problemau gweithdrefnol a phroblemau yn ymwneud ag ymddiriedaeth a hyder yn y broses o wneud penderfyniadau.</td><td>Mae’r cyngor yn cadarnhau y cafodd y broses ymgynghori statudol ei chynnal yn gwbl unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru). Gwnaed yr holl ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori yn weladwy i’r aelodau fel rhan o’r adroddiad ymgynghori. Yn ogystal â hyn, mae’r ddogfen hon a’r atodiad cysylltiedig yn cynnwys yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn llawn, sy’n caniatáu i aelodau wneud penderfyniad gwybodus.<br><br>Diben ymgynghoriad yw llywio’r broses o wneud penderfyniadau drwy gyflwyno amrywiaeth o safbwyntiau a thystiolaeth; nid yw’n pennu canlyniadau ar sail y nifer uchaf o ymatebion a ddaeth i law sy’n ffafrio canlyniad penodol yn unig. Mae angen i benderfyniadau ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys ystyriaethau addysgol, ariannol a strategol, yn ogystal â barn ymgyngoreion statudol.<br><br>Mae’r cyngor yn nodi bod nifer o ymatebwyr, gan gynnwys undebau llafur, wedi herio cywirdeb a dehongliad data yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys nifer y disgyblion, ffigurau capasiti, data presenoldeb, a rhagolygon.<br><br>Mae’r cyngor yn cadarnhau bod yr holl ddata a ddefnyddiwyd yn y ddogfen ymgynghori wedi’u tynnu o setiau data cydnabyddedig a rhagamcanion mewnol a ddefnyddir yn gyson ar draws adolygiadau trefniadaeth ysgolion.</td></tr>
</table>

| Sylwadau ar y gwrthwynebiad | Ymateb |
|---|---|
| | Dywedwyd bod y rhan fwyaf o geisiadau rhyddid gwybodaeth a ddaeth i law gydol y broses wedi'u gwrthod. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae pedwar cais rhyddid gwybodaeth/ Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi dod i law y cyngor. Ymatebwyd i ddau o'r ceisiadau hyn yn llawn. Ymatebwyd i un cais â datgeliad rhannol (darparwyd ychydig o wybodaeth, gydag eithriadau wedi'u cymhwyso o dan Reoliad 12(5)(d) a 12(5)(e) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) a gwrthodwyd un cais yn llawn, gyda'r holl wybodaeth wedi'i hystyried yn esempt o dan adran 36 (niweidio'r broses o gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol), adran 41 (gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol), ac adran 40(2) (gwybodaeth bersonol) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.<br><br>Cydnabyddir, oherwydd yr amgylchiadau eithriadol yn dilyn y tân a'r defnydd o leoliad dros dro, y gallai rhai pwyntiau data fod yn destun dehongliad gwahanol. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn fodlon bod y casgliadau cyffredinol a ddaethpwyd iddynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac nad yw amrywiadau o ran pwyntiau data unigol yn newid y sefyllfa o ran cynaliadwyedd yn sylweddol.<br><br>Ni wnaeth y cyngor rwystro cynghorwyr rhag ymweld â safle'r ysgol na chyfyngu ar eu mynediad, ac nid oedd dim yn rhwystro'r aelodau rhag mynychu'r safle'n annibynnol pe byddent wedi dymuno.<br><br>Mae'r cyngor yn fodlon bod y broses wedi bod yn un deg a thryloyw, ac wedi cydymffurfio â gofynion statudol. |
| **Pryderon yn ymwneud â thrafnidiaeth / teithio** | |
| Cododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch y canlynol<br><br>• hyd a chymhlethdod teithiau i ysgolion eraill<br>• amodau ffyrdd gwledig, gan gynnwys lonydd cul a llifogydd<br>• opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig | Dwy filltir un unig yw hyd y ffordd rhwng Maenorbŷr a Sain Fflwrens, gydag amser teithio bras o rhwng chwe ac wyth munud. Mae'r cynnydd mewn pellter yn un cymedrol ar y cyfan ac ni chaiff ei ystyried yn afresymol o ystyried y cyd-destun daearyddol. Bydd disgyblion cymwys yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi cludiant y cyngor. Bydd y trefniadau cludo yn rhoi |

| Sylwadau ar y gwrthwynebiad | Ymateb |
| --- | --- |
| • heriau i deuluoedd heb gerbyd<br>• newidiadau i'r dalgylch sydd wedi golygu nad yw rhai disgyblion yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol<br><br>Mae'r pryderon hyn yn aml yn gysylltiedig â'r effaith ymarferol a'r effaith ar lesiant. | blaenoriaeth i ddiogelwch a llesiant, a bydd cefnogaeth bontio briodol yn cael ei darparu i leihau'r amhariad.<br><br>Yr unig newid i'r dalgylch yw'r cynnig i uno dalgylch presennol Maenorbŷr â dalgylch Sain Fflwrens. |
| **Torri addewidion a cholli ymddiriedaeth** | |
| Mae llawer o'r ymatebwyr yn cyfeirio at arwyddion cynharach y byddai'r ysgol yn cael ei hailadeiladu a mynegwyd pryderon nad yw hyn wedi'i gyflawni. Mae hyn wedi arwain at ymdeimlad clir o<br>• Siom<br>• Rhwystredigaeth<br>• Llai o ymddiriedaeth yn yr awdurdod. | Yn dilyn cyfarfod y cabinet ym mis Mawrth 2023, mae'r cyngor yn cydnabod ei bod yn bosib bod canfyddiad cyffredinol y gwnaed penderfyniad i adfer yr ysgol. Fodd bynnag, penderfyniad y cabinet oedd cynnal astudiaeth ddichonoldeb i bennu costau bras, fel rhan o arfarniad opsiynau. Byddai penderfyniad i adfer yr ysgol yn amodol ar ganfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb a'r broses achos busnes.<br><br>Daeth y gwaith hwn, gan gynnwys gwerthusiad ariannol, strwythurol a strategol, i'r casgliad na fyddai adferiad yn darparu ateb cynaliadwy na hyfyw yn yr hirdymor. Mae'r cyngor yn cydnabod bod hyn wedi bod yn siom fawr i'r gymuned ac wedi bod yn ffactor a gyfrannodd at golli ymddiriedaeth. |
| **Ystyriaethau ariannol** | |
| Mae rhai ymatebion yn herio'r rhesymeg ariannol dros gau, gan awgrymu bod yr arbedion yn rhai tymor byr ac nad ydynt yn ystyried effeithiau ehangach megis costau cludiant a phwysau ar ysgolion eraill.<br><br>Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â dychwelyd yr adeilad a chyfrifoldeb am y costau i adfer. | Mae ystyriaethau ariannol yn rhan o brosesau cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau'r cyngor, ochr yn ochr â ffactorau eraill. Rhaid i Gyngor Sir Penfro sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio'n effeithiol wrth gynnal darpariaeth addysg o ansawdd uchel. Mae cynaliadwyedd a fforddiadwyedd yn yr hirdymor yn ffactorau allweddol yn y broses o wneud penderfyniadau.<br><br>Bydd y partïon perthnasol yn mynd i'r afael â'r sefyllfa gyfreithiol o ran perchnogaeth, atebolrwydd, ac unrhyw rwymedigaethau cysylltiedig |

<table>
<tr><th>Sylwadau ar y gwrthwynebiad</th><th>Ymateb</th></tr>
<tr><td></td><td>mewn perthynas â’r safle drwy brosesau cyfreithiol ac eiddo ar wahân.<br><br>Nid yw’r materion hyn yn rhan o’r penderfyniad statudol ar y cynnig trefniadaeth ysgolion, sy’n gorfod canolbwyntio ar ddarparu addysg a’r ateb mwyaf cynaliadwy yn yr hirdymor.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Effaith ar staff a chyflogaeth</td></tr>
<tr><td>Pryderon a godwyd ynghylch y canlynol:<br><br>• ysbryd a llesiant staff<br>• sicrwydd swydd<br>• y ffordd yr ymdrinnir â phrosesau cyflogi<br><br>Rhoddir cydnabyddiaeth i ymrwymiad y staff a phryder ynghylch yr ansicrwydd parhaus.</td><td>Mae’r cyngor yn cydnabod bod undebau llafur wedi codi pryderon tebyg yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch llesiant y staff a’r ansicrwydd.<br><br>Mae’r cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad y staff, a bydd yn sicrhau yr ymdrinnir â’r holl brosesau yn unol â pholisi AD.<br><br>Mae'r cyngor yn nodi'r pryder a godwyd bod ymgysylltu â staff wedi digwydd ynghylch canlyniadau cyflogaeth posibl, gan gynnwys dileu swydd. Nid oes unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal ar gais y cyngor yn uniongyrchol â staff mewn perthynas â chanlyniadau cyflogaeth posibl. Mae'r cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddilyn y broses briodol ac, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn ymgysylltu â'r staff yr effeithir arnynt yn unol â gofynion statudol, deddfwriaeth gyflogaeth berthnasol, a pholisïau gweithlu y cytunwyd arnynt. Os bydd angen trafod â staff yn y dyfodol, bydd ar yr amser priodol ac mewn modd ffurfiol a strwythuredig, gan sicrhau tryloywder a chydymffurfedd â rhwymedigaethau ymgynghori.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Darpariaeth ffydd a buddiannau’r esgobaeth</td></tr>
<tr><td>Mae nifer o ymatebion yn tynnu sylw at y canlynol:</td><td>Pe bai’r cynnig yn mynd rhagddo, byddai pob disgybl yn trosglwyddo i Ysgol Wirfoddol a Reolir Sain Fflwrens, gan sicrhau parhad yr ethos</td></tr>
</table>

| Sylwadau ar y gwrthwynebiad | Ymateb |
|---|---|
| • pwysigrwydd cynnal ysgol yr Eglwys yng Nghymru<br>• rôl yr esgobaeth fel rhanddeiliad<br>• gwerth ethos yr ysgol | Cristnogol ac addoliad ar y cyd. Mae pob ysgol wirfoddol a reolir yn gweithredu o dan yr un fframwaith llywodraethu ac yn cael ei goruchwylio gan yr esgobaeth. |